*Roedd yr wybodaeth hon yn gywir ar 05 Ebrill 2019. Ewch i'r wefan Paratoi Cymru a Cyd-ffederasiwn GIG Cymru FAQs i gael y cyngor diweddaraf.*

**Cynulleidfa:** Gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol proffesiynol

**Dosbarthiad:** Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Byrddau Iechyd y GIG, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyd-ffederasiwn GIG Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned

---

Mae'r bwletin Brexit hwn yn rhoi crynodeb ichi o'r prif faterion sy'n effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae bwletin yr wythnos hon yn canolbwyntio ar statws preswylio'n sefydlog.

**Beth yw'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE?**

Mae'r Cynllun Preswylio yn broses syml sy'n galluogi dinasyddion yr UE a'r Swistir ac aelodau o'u teulu sydd eisiau aros yn y Deyrnas Unedig i gael y statws mewnfudo angenrheidiol. Mae ar gael naill ai ar sail 'statws sefydlog' i'r rhai sydd wedi bod yn y DU ers pum mlynedd neu 'statws cyn-sefydlog' i'r rhai sydd wedi byw yn y DU am lai na phum mlynedd.

**Sut gall gwladolion yr EU wneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog?**

Mae cynllun y Swyddfa Gartref yn hollol agored nawr tan o leiaf 31 Rhagfyr 2020. I wneud cais, dim ond tri cham y bydd angen i wladolion yr UE eu cymryd - profi pwy ydynt, dangos eu bod yn byw yn y DU, a datgan unrhyw euogfarn droseddol. Does dim rhaid talu a gellir gwneud cais ar-lein.

**Sut bydd y cynllun yn cael ei effeithio gan 'ddim cytundeb'?**

Bydd y Cynllun Preswylio'n Sefydlog yn parhau, waeth sut y bydd y DU yn ymadael â'r UE. Bydd gwladolion yr UE sy'n byw yn y DU cyn inni adael yr UE yn dal yn gymwys i wneud cais i'r cynllun. Ar gyfer dinasyddion yr UE fydd yn cyrraedd ar ôl i'r DU ymadael, bydd trefniadau pontio yn cael eu gwneud ar gyfer mewnfudo.

---

**Ble gellir cael rhagor o wybodaeth am y Cynllun a gwneud cais?**

I gael rhagor o wybodaeth neu i wneud cais nawr, ewch i: www.gov.uk/settled-status-eu-citizens-families

*This information was correct as of 05 April 2019. Please see the Preparing Wales website and the Wales NHS Confederation FAQs for the most up-to-date advice.*

**Audience:** Health and Social Care professionals

**Circulation:** Welsh Government, Welsh Local Government Association, NHS Health Boards, Association of Directors for Social Services, NHS Confederation Wales, Health Inspectorate Wales, Care Inspectorate Wales, Social Care Wales, Board of Community Health Councils

---

This Brexit bulletin is a summary of some issues affecting health and social care in Wales as we prepare to leave the EU. This bulletin is focused on the EU Settlement Scheme.

**What is the EU Settlement Scheme?**

The EU Settlement Scheme is a simple process for EU and Swiss citizens and their family members who want to stay in the UK to get the UK immigration status they need. It is available either on a 'settled status' basis for those who have been in the UK for five years, or on a 'pre-settled status' basis for those who have lived in the UK for fewer than five years.

**How can EU nationals apply for the Settlement Scheme?**

The Home Office Scheme is now fully open until at least 31 December 2020. To apply, EU nationals will only need to complete three steps – prove their identity, show that they live in the UK, and declare any criminal convictions. It's free to apply and can be done online.

**Will the Scheme be affected by a 'no-deal'?**

The EU Settlement Scheme will continue regardless of how the UK leaves the EU. EU citizens who are resident in the UK before the UK leaves the EU will continue to be eligible to apply to the EU Settlement Scheme. For EU citizens arriving after the UK's exit from the EU, transitional immigration arrangements will be put in place.

---

**Where can you find out more about the Settlement Scheme and apply?**

For more information or to apply now, go to: www.gov.uk/settled-status-eu-citizens-families